Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dealltwriaeth

## Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru

### Y Fframwaith Canlyniadau

# Cynnwys


1 Rhan 1: Cefndir

2 Rhan 2: Datblygu'r Fframwaith Canlyniadau

3 Rhan 3: Adrodd

3 Rhan 4: Y Camau Nesaf

4 Rhan 5: Y Fframwaith Canlyniadau


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52466, ISBN digidol 978-1-80633-203-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhan 1: Cefndir

Mae'r **Fframwaith Canlyniadau** yn ddull strwythuredig a ddefnyddir i fesur a dangos effaith Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru drwy nodi ac olrhain canlyniadau mesuradwy, penodol. Bydd yn ein galluogi i ddeall yr hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio, a'r hyn y mae angen i ni ei wneud i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir gennym.

Bwriad canolog y Fframwaith Canlyniadau yw helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth a monitro ac asesu ei chynnydd.

## Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2025 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Dealltwriaeth – Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru, a'r cynllun cyflawni cysylltiedig ar gyfer 2025-2028. Nod y Strategaeth yw lleihau nifer a chyfraddau'r marwolaethau drwy hunanladdiad a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hefyd yn ceisio sefydlu llwybr i gynorthwyo pobl sy'n hunan-niweidio ac i wella cymorth i'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad.

Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru, ynghyd ag 16 o egwyddorion craidd a chwe amcan strategol.

## Amcanion y Strategaeth

Rhestrir yr amcanion fel a ganlyn.

### Amcan 1: Gwrando a Dysgu

Bydd gennym brosesau symlach ar gyfer casglu, dadansoddi a dehongli data, tystiolaeth, a thystiolaeth o brofiad bywyd; a seilwaith cadarn i sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i ddatblygu polisïau, cymorth a gwasanaethau.

### Amcan 2: Atal

Bydd gennym ymateb cydgysylltiedig trawslywodraethol ac amlasiantaethol i'r canlynol:

- mynd i'r afael â'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunan-niweidio a hunanladdiad
- cyfyngu ar fynediad neu amlygiad i wybodaeth niweidiol ar-lein ac yn y cyfryngau
- cyfyngu ar fynediad at ddulliau y gellir eu defnyddio i achosi niwed
- adnabod a rheoli lleoliadau sy'n peri pryder.

### Amcan 3: Grymuso

Bydd pawb yn cael eu grymuso â'r wybodaeth a'r ymwybyddiaeth i adnabod y rhai sydd mewn angen, i gynnig cymorth caredig a thosturiol; ac i'w helpu i gael mynediad at wasanaethau os oes angen.

### Amcan 4: Cefnogi

Bydd gan y bobl sy'n synio am hunanladdiad neu sy'n hunan-niweidio, neu'r rhai sy'n eu cefnogi, fynediad at gymorth, ymyrraeth a thriniaeth amserol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan yr holl wasanaethau perthnasol, gan gynnwys gofal sylfaenol, iechyd meddwl, gofal brys ac argyfwng, a gwasanaethau'r trydydd sector.

### Amcan 5: Galluogi

Mae gwasanaethau sy'n cefnogi pobl â heriau sy'n cynyddu'r perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio wedi'u galluogi i adnabod pobl sydd mewn perygl ac maent yn cydweithio ag asiantaethau partner i gynnig cymorth cyfannol, tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### Amcan 6: Ymateb

Bydd gennym ymatebion amserol i hunanladdiadau a bydd cymorth tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael i bawb yr effeithir arnynt.

Gellir dod o hyd i esboniadau manylach o'r amcanion, ynghyd â diffiniadau o dermau allweddol, yn nogfen y Strategaeth.

# Rhan 2: Datblygu'r Fframwaith Canlyniadau

Pwrpas strategaeth gan y llywodraeth yw darparu gweledigaeth a fframwaith eang ar gyfer cyflawni nodau hirdymor a mynd i'r afael â heriau cymhleth. Canlyniadau yw'r hyn sy'n deillio'n derfynol o weithredu strategaeth ac yn y pen draw, yr hyn sydd bwysicaf i bobl. Mae canlyniadau yn mesur llwyddiant y system gyfan yn sgil gweithredu strategaeth.

Fodd bynnag, bydd yn cymryd sawl blwyddyn i gyflawni canlyniadau hirdymor y strategaeth yn sylweddol. Gan ein bod yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r strategaeth, mae'r Fframwaith Canlyniadau hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu dangosyddion i fesur yr allbynnau tymor byr. Allbynnau yw'r pethau sy'n cael eu cyflawni'n uniongyrchol sy'n deillio o weithgareddau'r Strategaeth. Fel y gwelir o'n Damcaniaeth Newid, mae'r allbynnau tymor byr yn gysylltiedig â chanlyniadau hirdymor ac effaith gyffredinol y strategaeth. Rydym yn rhagweld bod yr allbynnau tymor byr yn bethau y gellir eu cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun Cyflawni cyntaf (y tair blynedd nesaf).

Datblygwyd y Ddamcaniaeth Newid, y mae'r Fframwaith Canlyniadau hwn yn seiliedig arno, yn dilyn ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid (mae'r adroddiad Damcaniaeth Newid yn cynnwys rhagor o fanylion am ymgysylltu â rhanddeiliaid). Nod y model Damcaniaeth Newid yw disgrifio sut a pham y bwriedir i'r Strategaeth gyflawni ei nod hirdymor trwy nodi'r gweithgareddau a allai gyfrannu at wahanol ganlyniadau trwy lwybrau newid. Mae'n dangos sut y gallai newidiadau ddigwydd ac yn egluro'r newidiadau tymor cynnar a thymor canolig y mae angen iddynt ddigwydd er mwyn cyrraedd canlyniad tymor hwy.

Wrth ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau hwn, fe wnaethom adolygu fframweithiau canlyniadau a ddatblygwyd i fonitro strategaethau atal hunanladdiad mewn rhannau eraill o'r DU hefyd. Yn ddiweddar, rydym wedi datblygu fframweithiau canlyniadau ar gyfer polisïau a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y strategaeth ddeng mlynedd, rydym yn bwriadu parhau i ddatblygu'r Fframwaith gyda mewnbwn gan randdeiliaid allweddol ac yn unol â rhagor o wybodaeth, fel data a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, ac ar y cyd â datblygiadau cymdeithasol. Fel rhan o hyn, byddwn yn adolygu ffynonellau data perthnasol presennol, er enghraifft, data Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) a Set Ddata Gofal Brys Cymru (WECDS), i goladu rhestr o ganlyniadau a mesurau posibl.

# Rhan 3: Adrodd

Mae'r cylch adrodd blynyddol arfaethedig ar gyfer y Strategaeth fel a ganlyn:

- Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu gan y Tîm Polisi Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn Llywodraeth Cymru sy'n dangos cynnydd wrth roi'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni ar waith yn ogystal â dangos newidiadau i ganlyniadau (gan ganolbwyntio i ddechrau ar y canlyniadau tymor byr yn unig)
- Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Strategol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, ac yna Cyd-fwrdd Sicrwydd y Gweinidogion ar y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio.
- Bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar-lein gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, bydd y Bwrdd Strategol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, a Chyd-fwrdd Sicrwydd y Gweinidogion ar y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd gan yr Tîm Polisi a rhanddeiliaid allweddol ar gyflawni'n strategol, gan gynnwys unrhyw risgiau a materion a nodwyd.

# Rhan 4: Y Camau Nesaf

Bydd y Fframwaith Canlyniadau, yn ogystal â'r Ddamcaniaeth Newid, yn cael eu defnyddio i ddatblygu Fframwaith Monitro a Gwerthuso a fydd yn llywio'r broses werthuso. Mae ein dealltwriaeth o'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau rhwng amcanion ac ysgogwyr allweddol y Strategaeth yn ein galluogi i benderfynu pa feysydd i'w hadolygu, pa gwestiynau i'w gofyn a nodi'r ffynonellau a fydd yn rhoi atebion i'r cwestiynau hyn.

Bydd hyn yn ei dro yn ein hysbysu o'r graddau y mae'r strategaeth yn gwneud cynnydd tuag at y weledigaeth gyffredinol.

# Rhan 5: Y Fframwaith Canlyniadau

## Amcan 1: Gwrando a Dysgu

Bydd gennym brosesau symlach ar gyfer casglu, dadansoddi a dehongli data, tystiolaeth a thystiolaeth o brofiad bywyd; a seilwaith cadarn i sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i ddatblygu polisïau, cymorth a gwasanaethau.

| Canlyniadau Hirdymor | Canlyniad Tymor Byr | Enghreifftiau o Ddangosyddion a Mesurau |
|---|---|---|
| Mae strwythurau a phrosesau systematig ar gyfer casglu, dadansoddi a lledaenu data ac ymchwil sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru yn cael eu datblygu.<br><br>Mae sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yn cael ei datblygu yng Nghymru drwy gydweithredu â sefydliadau a gweithwyr proffesiynol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.<br><br>Mae data o ansawdd uchel ar hunanladdiad a hunan-niweidio yn cael eu casglu'n rheolaidd yng Nghymru i lywio polisi a darpariaethau gwasanaethau. | Bydd y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil i Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yng Nghymru yn storfa ganolog ar gyfer data a thystiolaeth hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru. | Bydd cyflawni yn erbyn y camau gweithredu hyn yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad cynnydd blynyddol gan y Ganolfan Genedlaethol. |
| | Bydd ymarfer blaenoriaethu ymchwil yn cael ei gwblhau, a bydd ymchwil yn cael ei chynnal i lenwi bylchau mewn tystiolaeth. | |
| | Bydd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad bywyd, yn cymryd rhan mewn gwaith dylunio ymchwil er mwyn sicrhau bod y nodau yn diwallu anghenion y gymuned. | |
| | Mae protocolau/cytundebau rhannu data ar gyfer casglu data a thystiolaeth ar hunanladdiad a hunan-niweidio yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol yn cael eu datblygu a'u gweithredu. | |
| | Bydd y Ganolfan Genedlaethol yn cael ei phenodi'n gorff cynghori i Lywodraeth Cymru. | Bydd tystiolaeth o hyn mewn llythyr penodi wedi'i lofnodi sy'n nodi telerau'r penodiad. |

| Canlyniadau Hirdymor | Canlyniad Tymor Byr | Enghreifftiau o Ddangosyddion a Mesurau |
|---|---|---|
| | Mae systemau a phrosesau yn cael eu datblygu fel y gellir cofnodi digwyddiadau hunanladdiad a hunan-niweidio yn gyson, a mynd i'r afael â bylchau mewn data. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o waith codio hunanladdiad a hunan-niweidio mewn lleoliadau allweddol, a datblygu matrics data canolog. | Bydd cadarnhad o hyn yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad cynnydd blynyddol gan y Ganolfan Genedlaethol.<br><br>Mewn lleoliadau allweddol lle mae gwaith codio hunanladdiad a hunan-niweidio newydd wedi'i roi ar waith, byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i gwmpasu'r posibilrwydd o gynnal gwerthusiadau ar lefel prosiect i fesur llwyddiant.<br><br>Byddwn yn casglu tystiolaeth o'r gwaith a wnaed i wella data, fel o'r system Gwyliadwriaeth Amser Real Hunanladdiad Tybiedig (RTSSS) a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, a bydd hyn yn cael ei adrodd yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru<br><br>Byddwn yn casglu tystiolaeth hefyd o'r gwaith a wnaed i wella gwaith casglu data mewn arolygon sy'n seiliedig ar boblogaeth, er enghraifft, y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN), a bydd hyn yn cael ei adrodd yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru. |
| | Bydd metrigau data clir yn cael eu nodi er mwyn monitro cynnydd ac effaith y strategaeth. | Bydd tystiolaeth o hyn yn y Fframwaith Monitro a Gwerthuso a fydd yn cael ei gyhoeddi gyda metrigau data clir. |

## Amcan 2: Atal

Bydd gennym ymateb cydgysylltiedig trawslywodraethol ac amlasiantaeth i'r canlynol:

- mynd i'r afael â'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunan-niweidio a hunanladdiad
- cyfyngu ar fynediad neu amlygiad i wybodaeth niweidiol ar-lein ac yn y cyfryngau
- cyfyngu ar fynediad at ddulliau y gellir eu defnyddio i achosi niwed
- adnabod a rheoli lleoliadau sy'n peri pryder.

| Canlyniadau Hirdymor | Canlyniad Tymor Byr | Enghreifftiau o Ddangosyddion a Mesurau |
|---|---|---|
| Mwy o ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith Swyddogion y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus perthnasol.<br><br>Gwell gallu i liniaru'n effeithiol y risg o hunanladdiad a hunan-niweidio.<br><br>Effaith datblygu polisi/ ymyriadau ar hunanladdiad a hunan-niweidio yn cael ei hystyried yn rheolaidd gan Swyddogion y Llywodraeth a gwasanaethau sector cyhoeddus.<br><br>Byddwn yn gweld gostyngiad mewn mynediad at ddulliau o gyflawni hunanladdiad. | Swyddogion y Llywodraeth a gweithwyr y sector cyhoeddus yn manteisio ar gyfleoedd dysgu a hyfforddi mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niweidio i ddatblygu ymhellach eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hunan-niweidio a hunanladdiad. | Byddwn yn mesur ac yn olrhain y defnydd o gynhyrchion hyfforddi ar Hwb Hyfforddiant Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru ac unrhyw blatfformau yn y dyfodol sy'n hyrwyddo'r modiwlau hyfforddi.<br><br>Byddwn yn cynnal arolwg sampl gyda staff y sector cyhoeddus, ac yn gweithio i gynnwys cwestiynau mewn arolwg blynyddol presennol o swyddogion Llywodraeth Cymru, er mwyn cael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth staff o hunanladdiad a hunan-niweidio; a'u galluogrwydd a'u gallu i integreiddio atal hunanladdiad ac ymateb i hunan-niweidio yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Bydd hwn yn arolwg mesurau a ailadroddir fel y gallwn fonitro newid dros amser. |

| Canlyniadau Hirdymor | Canlyniad Tymor Byr | Enghreifftiau o Ddangosyddion a Mesurau |
|---|---|---|
| Gostyngiadau mewn cynnwys niweidiol yn y cyfryngau am hunanladdiad a hunan-niweidio. | Bydd gan wasanaethau'r sector cyhoeddus aelodau staff sy'n gyfrifol am atal hunanladdiad a hunan-niweidio. | Byddwn yn cael gwybodaeth am staffio'r sector cyhoeddus o gyfarfodydd â Thîm y Rhaglen Hunanladdiad a Hunan-niweidio o fewn Gweithrediaeth GIG Cymru. |
| | Mae strwythurau a phrosesau sefydledig a gweithredol ar gyfer nodi a lliniaru'r risg o hunanladdiad a hunan-niweidio wedi'u datblygu ac yn cael eu defnyddio gan staff Llywodraeth Cymru a staff y sector cyhoeddus. | Bob tair blynedd byddwn yn defnyddio dull hapsamplu i adolygu'r broses o asesu'r effaith ar iechyd er mwyn sicrhau bod hunanladdiad a hunan-niweidio yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisi.<br><br>Byddwn yn asesu pa mor dda y mae ymrwymiadau polisi yn cael eu gweithredu hefyd; bydd hyn yn ystyried cynnwys polisïau a'r broses o'u gweithredu (ynghyd â thystiolaeth o'r effaith lle bynnag y bo modd). |
| | Mae'r cyfryngau yn dilyn canllawiau arfer orau yn gyson wrth adrodd, trafod neu bortreadu hunan-niweidio a hunanladdiad. | Byddwn yn monitro'r cyfryngau yn rheolaidd trwy gynnal dadansoddiad ansoddol a meintiol o sampl o allbynnau'r cyfryngau sy'n gysylltiedig â hunan-niweidio a hunanladdiad ac yn defnyddio hyn i lywio rhagor o ganllawiau a chymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a data. |

## Amcan 3: Grymuso

Bydd pawb yn cael eu grymuso â'r wybodaeth a'r ymwybyddiaeth i adnabod y rhai sydd mewn angen, i gynnig cymorth caredig a thosturiol; ac i'w helpu i gael mynediad at wasanaethau os oes angen.

| Canlyniadau Hirdymor | Canlyniad Tymor Byr | Enghreifftiau o Ddangosyddion a Mesurau |
|---|---|---|
| Mae gan bobl yng Nghymru well dealltwriaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio.<br><br>Mae trafod hunanladdiad a hunan-niweidio yn cael ei normaleiddio ledled cymdeithas, gyda geirfa sy'n cael ei deall yn eang.<br><br>Mae gan bobl yng Nghymru fwy o allu a galluogrwydd i ymateb i rywun sy'n datgelu ymddygiadau hunan-niweidio/sy'n synio am hunanladdiad, gan gynnwys gwybodaeth am ble i'w cyfeirio am gymorth. | Mae cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yn cael ei ddatblygu a'i weithredu yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio a sut i gynnig cymorth. | Bydd y gwaith o gyflawni yn erbyn y camau gweithredu i ddatblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad cynnydd blynyddol gan Lywodraeth Cymru. |
| | Mae adnoddau'n cael eu hyrwyddo'n well ac mae cymorth gwell eisoes ar gael. | Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o fonitro traffig gwefannau a metrigau ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwerthuso cyrhaeddiad ac effaith y cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu. Byddwn yn dadansoddi data fel ymweliadau â thudalennau, cyfraddau clicio drwodd, a rhyngweithiadau cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn mesur ac yn olrhain y defnydd o gynhyrchion hyfforddi a chymorth. |

| Canlyniadau Hirdymor | Canlyniad Tymor Byr | Enghreifftiau o Ddangosyddion a Mesurau |
|---|---|---|
| | Lle mae bylchau mewn hyfforddiant ac adnoddau yn cael eu nodi, mae cynhyrchion hyfforddiant a chymorth sy'n hygyrch i bawb yn cael eu datblygu er mwyn rhoi i bobl yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth fel y gallant gynnig cymorth a chyfeirio at wasanaethau yn hyderus. | Byddwn yn asesu gwybodaeth ac agweddau'r cyhoedd mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niweidio, eu gwybodaeth am opsiynau cymorth cyfredol a'u hyder a'u gallu i ymateb i rywun sy'n hunan-niweidio neu'n synio am hunanladdiad. I wneud hyn, byddwn yn cynnal arolwg sampl o'r boblogaeth gyffredinol, ar lefel unigolyn, teulu a phoblogaeth. Bydd arolwg mesurau a ailadroddir yn cael ei gynnal bob tair blynedd er mwyn asesu newidiadau dros amser.<br><br>Byddwn yn archwilio'r cyfle i gasglu data ansoddol hefyd trwy gyfweliadau lled-strwythuredig gydag aelodau o'r cyhoedd, gan archwilio'r un themâu ag uchod.<br><br>Bydd datblygiad cynhyrchion newydd ar gyfer hyfforddiant a chymorth yn cael ei gyhoeddi ar Hwb Hyfforddiant Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru ac yn cael ei adrodd yn adroddiad cynnydd blynyddol Llywodraeth Cymru. |

## Amcan 4: Cefnogi

Bydd gan bobl sy'n synio am hunanladdiad neu sy'n hunan-niweidio, neu'r rhai sy'n eu cefnogi, fynediad at gymorth, ymyrraeth a thriniaeth amserol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan yr holl wasanaethau perthnasol, gan gynnwys gofal sylfaenol, iechyd meddwl, gofal brys ac argyfwng, a gwasanaethau'r trydydd sector.

| Canlyniadau Hirdymor | Canlyniad Tymor Byr | Enghreifftiau o Ddangosyddion a Mesurau |
|---|---|---|
| Mae mwy o bobl sy'n hunan-niweidio/sy'n synio am hunanladdiad yn derbyn cymorth amserol a thosturiol.<br><br>Gall pobl sy'n hunan-niweidio/sy'n synio am hunanladdiad gael mynediad at lwybr cymorth yn rhwydd pan fo angen.<br><br>Mae mwy o bobl sy'n hunan-niweidio/sy'n synio am hunanladdiad yn derbyn asesiad seicogymdeithasol ac yn cael eu rhyddhau gyda chynllun diogelwch effeithiol.<br><br>Mae mwy o bobl sy'n hunan-niweidio/sy'n synio am hunanladdiad yn derbyn cymorth dilynol priodol, gan gynnwys atgyfeiriadau i wasanaethau eraill pan fo angen. | Mae datganiad ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer hunan-niweidio yn cael ei ddatblygu yn seiliedig ar yr angen a'r galw a nodwyd.<br><br>Mae llwybr cenedlaethol ar gyfer cymorth hunan-niweidio ym maes Gofal Sylfaenol yn cael ei ddatblygu yn seiliedig ar yr angen a'r galw a nodwyd. | Bydd y gwaith o gyflawni yn erbyn y camau gweithredu i ddatblygu datganiad ansawdd a llwybr cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad cynnydd blynyddol gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Fel rhan o'r monitro, byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid i gwmpasu'r potensial o gynnal cyfres o brosesau ymgysylltu ansoddol a meintiol i geisio adborth gan y rhai sy'n cael mynediad at y llwybr a'r cymorth a bennir trwy'r datganiad ansawdd.<br><br>Bydd gweithgor o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â dylunio a chyflwyno'r ymateb hunan-niweidio, sy'n cynnwys staff Gweithrediaeth GIG Cymru, gofal sylfaenol, gofal iechyd meddwl eilaidd, cymorth mewn argyfwng, a'r adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, yn cael ei sefydlu i adolygu effeithiolrwydd y llwybr a'r cymorth a gafwyd. |
| | Mwy o ddealltwriaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith staff gwasanaethau perthnasol.<br><br>Mwy o gapasiti a galluogrwydd o fewn lleoliadau gwasanaethau i ddiwallu anghenion y rhai sy'n ymgyflwyno â hunan-niweidio a/neu sydd mewn perygl o hunanladdiad. | Trwy arolwg sgiliau staff, byddwn yn mynd ati'n rheolaidd i gasglu data ar wybodaeth, sgiliau ac ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau yn y maes hwn a byddwn yn defnyddio hyn i fonitro newid dros amser. |

## Amcan 5: Galluogi

Mae gwasanaethau sy'n cefnogi pobl â heriau sy'n cynyddu'r perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio wedi'u galluogi i adnabod pobl sydd mewn perygl ac maent yn cydweithio ag asiantaethau partner i gynnig cymorth cyfannol, tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

| Canlyniadau Hirdymor | Canlyniad Tymor Byr | Enghreifftiau o Ddangosyddion a Mesurau |
|---|---|---|
| Mwy o gapasiti a galluogrwydd ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio i ddiwallu anghenion y rhai sydd mewn perygl, gan gynnwys gwybodaeth am yr asiantaethau eraill y dylid cydweithio â nhw/cyfeirio pobl atynt er mwyn sicrhau cymorth cyfannol. | Mae cynlluniau darparu gwasanaethau yn cael eu datblygu neu eu diweddaru i adlewyrchu'r angen a nodwyd. | Byddwn yn defnyddio dull samplu ar hap i adolygu cynlluniau darparu gwasanaethau.<br>Byddwn yn casglu'r wybodaeth hon hefyd drwy arolwg o staff gwasanaethau sy'n cefnogi pobl sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio, ac yn rhoi adborth drwy'r Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio o fewn Gweithrediaeth GIG Cymru. |
| | Mae cynllun hyfforddi ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru sydd â'r nod o fynd i'r afael ag anghenion staff yn cael ei ddatblygu a'i hyrwyddo. | Bydd cadarnhad o ddatblygiad y cynllun hyfforddi yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad cynnydd blynyddol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. |
| Mwy o bobl sy'n hunan-niweidio/sy'n synio am hunanladdiad yn derbyn cymorth tosturiol a chyfannol sy'n canolbwyntio ar unigolion. | Mae adnoddau i hwyluso ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth, ynghyd â'r defnydd o eirfa y mae pobl yn ei deall, yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo. | Bydd cadarnhad o ddatblygiad adnoddau yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad cynnydd blynyddol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a bydd adnoddau yn cael eu cyhoeddi ar Hwb Hyfforddiant Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru. |
| Mwy o ddealltwriaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio. | Mae staff yn manteisio ar y cynnig hyfforddiant ac yn ymgysylltu â'r adnoddau. | Trwy arolwg sgiliau staff, byddwn yn mynd ati'n rheolaidd i goladu data ar wybodaeth, sgiliau ac ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau yn y maes hwn a byddwn yn defnyddio hyn i fonitro newid dros amser. Byddwn yn monitro lefelau cymryd rhan mewn hyfforddiant yn ôl y math o wasanaeth ac yn olrhain y defnydd o adnoddau trwy fonitro nifer yr ymweliadau, y lawrlwythiadau, a'r chwiliadau a gynhelir o fewn yr hwb. |

# Amcan 6: Ymateb

Bydd gennym ymatebion amserol i hunanladdiadau a bydd cymorth tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael i bawb yr effeithir arnynt.

| Canlyniadau Hirdymor | Canlyniad Tymor Byr | Enghreifftiau o Ddangosyddion a Mesurau |
|---|---|---|
| Mwy o bobl sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad neu sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad yn cael mynediad at gymorth amserol a thosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. | Mae llwybrau a phrotocolau clir yn cael eu gweithredu yn genedlaethol os bydd achos o hunanladdiad neu hunanladdiad tybiedig. | Bydd cadarnhad o ddatblygiad llwybrau a phrotocolau yn cael ei gyhoeddi yn adroddiad cynnydd blynyddol Llywodraeth Cymru.<br>Byddwn yn casglu gwybodaeth am effeithiolrwydd y protocolau a'r llwybrau drwy adborth drwy'r Rhaglen Hunanladdiad a Hunan-niweidio o fewn Gweithrediaeth GIG Cymru (a fydd yn cynnwys darparwyr cymorth). |
| | Mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol (NALS) yn cael ei sefydlu fel llwybr ffurfiol o gymorth i'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad neu sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad. | Bydd gwybodaeth am effeithiolrwydd llwybr a chymorth NALS yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan werthusiad cynnydd a gomisiynir yn allanol. Trwy hyn byddwn yn monitro hefyd unrhyw addasiadau sydd eu hangen ac sy'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth. |
| | Addasiadau'n cael eu gwneud i'r NALS pan fo angen er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r galw a'r angen. | |
| | Mwy o bobl sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad yn cael mynediad at gymorth profedigaeth arbenigol. | Bydd nifer y bobl sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad ac sy'n cael mynediad at gymorth trwy NALS yn cael ei asesu trwy'r gwerthusiad. |
| | Mwy o bobl sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad neu sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad yn cael mynediad i'r adnoddau perthnasol. | Byddwn yn defnyddio dadansoddeg o wefan Hwb Hyfforddiant Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru, gan gynnwys cyfraddau clicio drwodd/trosi, cyrhaeddiad, cyfraddau rhannu, cyfraddau ymgysylltu, ac ymweliadau â thudalennau. |